Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

National Assembly for Wales
Public Accounts Committee

Shan Morgan
Yr Ysgrifennydd Parhaol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 2NQ

14 Rhagfyr 2017

**Ymatebion Llywodraeth Cymru i argymhellion y Pwyllgor**

Annwyl Ysgrifennydd Parhaol,

Diolch eto am eich llythyr dyddiedig 8 Tachwedd yn ateb pryderon a godwyd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynglŷn â Llywodraeth Cymru yn derbyn yn rhannol/derbyn mewn egwyddor argymhellion y Pwyllgor.

Trafododd y Pwyllgor y llythyr yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr ac rydym yn croesawu'r trywydd adeiladol a chadarnhaol rydych yn ei gymryd i roi'r gorau i'r arfer o dderbyn yn rhannol/derbyn mewn egwyddor argymhellion y Pwyllgor.

Fodd bynnag, hoffai'r Pwyllgor bwysleisio pa mor bwysig yw bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno naratif clir a manwl i gyd-fynd â derbyn neu wrthod argymhellion y Pwyllgor sy'n nodi bwriadau Llywodraeth Cymru.

Rydym hefyd yn gwerthfawrogi eich gwahoddiad i glercod a swyddogion Llywodraeth Cymru drafod argymhellion tra'u bod ar ffurf drafft. Rydym yn croesawu ymdrechion i sicrhau bod gennym ddeialog ddwyffordd a all wella argymhellion y Pwyllgor er mwyn sicrhau gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, nid ydym yn credu y dylai hyn fod yn rheolaidd gofio'r angen i gynnal annibyniaeth a thryloywder y Pwyllgor, yn arbennig o ran ei rôl wrth ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Fodd bynnag, lle mae'r Pwyllgor yn ei argymhellion yn ceisio dylanwadu ar ddatblygiad polisi parhaus neu, yn wir, ar ddatblygiad deddfwriaeth, gallai fod o fudd i bawb i'r clercod a swyddogion Llywodraeth Cymru drafod y materion hyn er

mwyn gwneud y mwyaf o ddylanwad y Pwyllgor a sicrhau prydlondeb ein hargymhellion.  Mewn achosion o'r fath, hyderaf y bydd y clercod mewn cysylltiad â'ch swyddogion.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio'n adeiladol gyda'n gilydd.

Yn gywir,

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**